PWYLLGOR PENODI

DYDD GWENER, 16 MAWRTH 2018

Yn bresennol: Cynghorydd (Cadeirydd)

Cynghorwyr Boyle, Goodway, Mackie, Weaver a/ac Walker

9 : ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD - Penodi'r Cynghorydd Goodway yn Gadeirydd y Pwyllgor Penodi hwn ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Landlord Corfforaethol.

10 : YMDDIHEURIADAU (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

12 : CYLCH GORCHWYL

I nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.

13 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod: -

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

14 : PENODI CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL - LANDLORD CORFFORAETHOL

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Landlord Corfforaethol.

Adolygodd y Pwyllgor un deg un o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyriodd sut yr oedd ymgeiswyr yn bodloni'r galluoedd hanfodol o'r Fframwaith

Galluoedd Ymddygiadol a'r proffil rôl; a nododd yr ymgeiswyr hynny i fynd ymlaen i'r Ganolfan Asesu.

PENDERFYNWYD –

(1) y byddai ymgeiswyr 6, 8, 9 ac 11 yn symud ymlaen i'r Ganolfan Asesu (dyddiad i'w drefnu);

(2) y byddai'r Pwyllgor yn ailymgynnull i ystyried canlyniadau'r Ganolfan Asesu ac i greu rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld.

15 : DISWYDDO

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses greu rhestr hir.

16 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Dyddiad y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 10.05pm).*